Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(144)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru (60 munud)**

NDM5283 Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 26 Mehefin 2013.

Dogfennau ategol:
Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Horizon 2020: Cyfnod 2 (60 munud)**

NDM5284 Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Cyfnod 2 y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Horizon 2020, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 26 Mehefin 2013.

Dogfennau ategol:
Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

NDM5282 William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y potensial enfawr i dwristiaeth yng Nghymru wledig ac yn annog Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phryderon y diwydiant ynglyn â sut y bydd y strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth yn gweithio mewn ardaloedd gwledig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog cynghorau lleol i weithredu canllawiau cynllunio Tan 6 i gynorthwyo'r economi wledig gynaliadwy ac annog arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig drwy alluogi troi adeiladau fferm gwag yn eiddo busnes neu lety yn awtomatig.

3. Yn cydnabod yr amodau amgylcheddol anodd sy'n wynebu ffermwyr sy'n gweithio mewn Ardaloedd Llai Ffafriol (LFA) ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu pecyn cymorth LFA i fynd i'r afael â'r heriau unigryw hyn.

4. Yn nodi pwysigrwydd gwasanaethau bysiau cynaliadwy fel llinell fywyd i gymunedau gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu digon o gyllid i wasanaethau bysiau gwledig.

5. Yn nodi ymhellach bwysigrwydd Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol o ran cynorthwyo'r economi wledig a hyrwyddo diwylliant Cymru.

Gellir gweld ‘Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020’ drwy'r linc a ganlyn:

http://cymru.gov.uk/topics/tourism/developmentl1/partnershipforgrowth/?skip=1&lang=cy

Gellir gweld ‘TAN6 - cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy’ drwy'r linc a ganlyn:

http://cymru.gov.uk/docs/desh/policy/100722tan6cy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd banc ar y stryd fawr i’r economi leol, ac yn gresynu at y ffaith, yn ôl dadansoddiad diweddar ‘The Last Bank in Town’ gan yr Ymgyrch Dros Wasanaethau Bancio Cymunedol, bod tri deg wyth o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru ble mae dim ond un banc bellach.

Mae adroddiad ‘The Last Bank in Town’ gan yr Ymgyrch Dros Wasanaethau Bancio Cymunedol ar gael yma:

http://www.communitybanking.org.uk/revised-last-bank-in-town.htm

**Gwelliant 2 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl ‘ac yn annog Llywodraeth Cymru i’ a rhoi yn ei le ‘weithio gyda’r diwydiant er mwyn datblygu’r potensial hwnnw drwy fwrw ymlaen â’r strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth’

**Gwelliant 3 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 2

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 2, dileu 'yn awtomatig'.

**Gwelliant 5 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

'Yn cydnabod yr amodau economaidd a'r amodau amgylcheddol anodd y mae ffermwyr sy'n gweithio yn yr Ardal Lai Ffafriol (LFA) bresennol yn eu hwynebu, yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r dynodiad newydd ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol cyn y dyddiad terfynol yn 2018 ac yn nodi hefyd ymrwymiad y Llywodraeth i ddefnyddio'r dynodiad newydd hwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau unigryw hyn.'

*[Os derbynnir gwelliant 5, bydd gwelliant 6 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl '(LFA)' a rhoi yn ei le:

'; nodi potensial Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol i gydnabod yr amodau hyn ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i weithredu pecyn cymorth arbennig ar gyfer ardaloedd sy'n cyfateb i LFA/ANC, y gellid eu cyflwyno drwy reoliadau datblygu gwledig yn debyg i wledydd a rhanbarthau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.'

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod rôl hanfodol cyllid yr Undeb Ewropeaidd o ran cefnogi economi cefn gwlad Cymru, ac felly'n credu'n gryf mai'r ffordd orau o ofalu am fuddiannau Cymru yw drwy barhau i fod yn rhan ymroddedig o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi pwysigrwydd gwasanaethau rheilffordd sydd ar gael yn rhwydd i ddarparu system drafnidiaeth integredig mewn ardaloedd gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ailagor gorsafoedd rheilffyrdd addas ledled cefn gwlad Cymru.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**

NDM5281 Nick Ramsay (Mynwy): Y Llinyn o Undod: Cynorthwyo Dioddefwyr Strôc yng Nghymru

Tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio i oresgyn strôc drwy amrywiaeth o therapïau a thriniaethau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Mehefin 2013 i'w hateb ar 3 Gorffennaf 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

1. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i asesu cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal? OAQ(4)0298(ESK)W

2. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysgol i blant mewn llochesau i fenywod? OAQ(4)0288(ESK)

3. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella safonau mewn pynciau craidd megis mathemateg, gwyddoniaeth a darllen mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0304(ESK)

4. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo DPP i athrawon a chynorthwywyr addysgu? OAQ(4)0303(ESK)

5. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg yn y cartref yng Nghymru? OAQ(4)0302(ESK)

6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o fanteision posibl cerdded neu feicio i'r ysgol i addysg plentyn? OAQ(4)0295(ESK)

**7. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant yng nghyfnod allweddol 2 a 3? OAQ(4)0290(ESK)

**8. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0293(ESK)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglŷn â phwysau ariannol yn ei bortffolio? OAQ(4)0305(ESK)**W**

**10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r cwricwlwm ysgol? OAQ(4)0294(ESK)

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa gynnydd sydd wedi ei wneud tuag at sicrhau bod canlyniadau cyfnod allweddol 2 yn cael eu cymedroli mewn ffordd sy'n golygu bod y canlyniadau'n gyson? OAQ(4)0289(ESK)

**12. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ystyriaethau Llywodraeth Cymru o ran gwella gwasanaethau addysg yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0296(ESK)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg gorfforol yn ein hysgolion? OAQ(4)0300(ESK)

**14. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Beth yw'r amserlen ar gyfer gosod y Safonau Iaith Gymraeg ar sefydliadau yn ogystal ag awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0291(ESK) **TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG GAN Y PRIF WEINIDOG**

**15. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella safonau addysgol? OAQ(4)0299(ESK)

**Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

1. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r Gogledd? OAQ(4)0290(EST)W

2. **Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau buddsoddiad yng Nghymru? OAQ(4)0284(EST)

3. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i fusnesau bach yn Aberconwy? OAQ(4)0295(EST)

4. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi arwyddion twristiaeth brown Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0293(EST)

5. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleoedd twristiaeth ffydd yng Nghymru? OAQ(4)0283(EST)

6. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd economaidd swyddfeydd post i'r stryd fawr leol yng Nghymru? OAQ(4)0286(EST) **TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG GAN Y GWEINIDOG CYMUNEDAU A THRECHU TLODI**

7. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau bysiau yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0287(EST)

8. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd? OAQ(4)0296(EST)

9. **Sandy Mewies (Delyn):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu cwmnïau adeiladu bach a chanolig eu maint yn Nelyn i gael gafael ar gyllid i greu a diogelu swyddi? OAQ(4)0291(EST)

**10. Elin Jones (Ceredigion)**: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda banciau ynglŷn â chymorth i fusnesau? OAQ(4)0288(EST)

**11. Julie James (Gorllewin Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog wneud datganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo Cymru i deithwyr awyr, gan gynnwys twristiaid a theithwyr busnes? OAQ(4)0292(EST)

**12. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer hybu gwyddoniaeth? OAQ(4)0297(EST)W

**13. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer canolbarth Cymru? OAQ(4)0294(EST)

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i sefydlu ymgyrch 'Cefnogi'r Stryd Fawr yng Nghymru'? OAQ(4)0285(EST)
**TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG GAN Y GWEINIDOG TAI AC ADFYWIO**

**15. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella a chynyddu argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus ledled de Cymru cyn etholiad nesaf y Cynulliad? OAQ(4)0289(EST)